Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

| | | |
|---|---|---|
| | **Cyfarfod:** | **Bwrdd Plismona** |
| | **Lleoliad:** | **Ystafell Gynadledda SCHTh** |
| | **Dyddiad:** | **22 Mehefin 2016** |
| | **Amser:** | **10:05 – 11:15** |

| | |
|---|---|
| **Aelodau:** | Mr Dafydd Llywelyn, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Prif Gwnstabl Simon Prince QPM (CC)<br>Mrs Jayne Woods, Prif Swyddog Ariannol (PSA) |
| **Hefyd yn Bresennol:** | Arolygydd Mark McSweeney, Swyddog Staff (MMS)<br>Mrs Claire Bryant, Rheolwr Swyddfa, SCHTh (CB) |
| **Ymddiheuriadau:** | Mr Adrian Williams, Cyfarwyddwr Adnoddau (CA)<br>Mrs Carys Morgans, Pennaeth Staff, SCHTh (CM) |

| **CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 01/06/16** | | |
|---|---|---|
| **Rhif Cam Gweithredu** | **Crynodeb** | **Cynnydd** |
| **PB 2007** | **PGC i roi gwybodaeth i'r CHTh am y prosiect rheoli galw** | **Ar waith – cyfarfod i'w sefydlu** |
| **PB 2008** | **Rhoi rhestr portffolios prif swyddogion i'r CHTh** | **Ar waith – cael ei adolygu ar hyn o bryd** |
| **PB 2009** | **SCHTh i drefnu cynnal y Bwrdd Plismona bob pythefnos** | **Cwblhawyd** |

| **PENDERFYNIADAU'N CODI O GYFARFOD 22/06/16** | | |
|---|---|---|
| **Rhif penderfyniad** | **Crynodeb o'r penderfyniad** | **I'w symud yn ei flaen gan** |
| **PB T2 02** | **Cymeradwyodd y CHTh yr hawliau trosglwyddo arian i greu pennawd cyllideb ESMCP sengl gwerth £1.6 miliwn** | **CC** |
| **PB T2 03** | **Cymeradwyodd y CHTh yr hawliau trosglwyddo arian cyllideb cyfalaf i gynyddu cyllidebau seiberdroseddu o £200,000 a'r system adnabod rhifau ceir yn awtomatig o £40,000.** | **CC** |

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Mehefin a materion yn codi**

Cytunwyd bod y cofnodion yn gofnod gwir a chywir.

Trafododd y CHTh a'r PG eu bod wedi cael trafodaethau cadarnhaol â'r Prif Swyddog Tân mewn perthynas â chyd-leoli. Cytunwyd y byddai'r PG a'r CHTh yn cynnal ymgysylltu

cyhoeddus ar y cyd mewn perthynas â hyn, ac y byddai'r PG yn nodi pwynt cyswllt i SCHTh drafod â nhw.

**Cam gweithredu: PG i nodi arweinydd yr heddlu ar gyfer trafodaethau â'r gwasanaeth tân mewn perthynas â chyfleoedd ar gyfer cydweithio.**

Dywedodd y CHTh bod CHTh eraill Cymru'n ei gefnogi i'w cynrychioli ar fwrdd y gwasanaeth heddlu awyr cenedlaethol (NPAS).

**Diweddariad y Prif Gwnstabl**

Rhoddodd y PG ddiweddariad ynghylch y prif faterion gweithredol byw, ac adroddodd bod 5 aelod staff wedi'u hatal o'r gwaith ar hyn o bryd.

Gofynnodd y CHTh am i SCHTh fod yn gysylltiedig ag adolygiadau o strwythurau llywodraethu sy'n cael eu cynnal gan yr heddlu ar hyn o bryd.

**Cam gweithredu: Cynrychiolydd o SCHTh i gwrdd ag arweinydd Prosiect Llywodraethu Corfforaethol yr heddlu yn rheolaidd**

**Diweddariad Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu**

Trafododd y CHTh gais a oedd wedi'i dderbyn gan SCHTh gan brifysgol leol i gymryd rhan yng ngweithgarwch hyrwyddo wythnos y glas. Cytunwyd y byddai SCHTh yn cysylltu â phrifysgolion i gael rhagor o wybodaeth er mwyn cefnogi penderfyniadau swyddogion lleol.

**Cam gweithredu: SCHTh i gysylltu â Phrifysgol y Drindod Dewi Sant mewn perthynas ag ymgysylltu o ran wythnos y glas**

Gofynnodd y CHTh am gael gwybodaeth ynghylch gwaith Timoedd Plismona Bro er mwyn cael gwell dealltwriaeth o sut y gallai'r ymagwedd tuag at ymgysylltu cymunedol amrywio mewn gwahanol rannau o'r ardal heddlu. Roedd y CHTh wedi cael gwybod nad oedd cyfarfodydd Partneriaid a Chymunedau Gyda'i Gilydd (PACT) yn cael eu cynnal ym mhob cymuned. Dywedodd y PG bod hyn yn ymwneud â'r ffaith bod gan swyddogion lleol hyblygrwydd i ymgysylltu â'u cymunedau drwy'r dull mwyaf priodol yn eu barn nhw.

**Cam gweithredu: Timoedd Plismona Bro i roi gwybodaeth i'r CHTh mewn perthynas â gweithgarwch cyfredol**

Ceisiodd y CHTh sicrwydd bod yr isafswm cyflog yn cael ei dalu i staff HDP, gan gynnwys y rhai sy'n cael eu cyflogi gan gontractwyr. Cadarnhaodd y PG bod pob aelod o staff HDP yn derbyn hyn, a dywedodd y byddai hyn yn cael ei wirio gan wasanaethau contract cyn

i'r PG roi ymateb ysgrifenedig i'r CHTh. Cafwyd trafodaeth ynghylch y broses gaffael, ac y bydd angen nodi'r gofyniad i dalu'r cyflog byw yn glir o fewn gweithgareddau caffael.

**Cam gweithredu: PG i gyflwyno ymateb ysgrifenedig i'r CHTh mewn perthynas â sicrwydd bod contractwyr yn talu'r isafswm cyflog**

Nododd y PSA ei bod hi'n ymwybodol o rai materion o ran y darparwr gwasanaethau teithio, a holodd pa un ai a oedd y materion wedi'u datrys. Cytunwyd y byddai'r CC yn rhoi diweddariad.

**Cam gweithredu: Y CC i roi diweddariad ynghylch statws cyfredol y darparwr gwasanaethau teithio**

Cychwynnodd y CHTh drafodaeth am ddosbarthu cofnodion y Bwrdd Plismona i bob aelod staff. Cytunodd y PG i ystyried y mater er mwyn tynnu sylw staff at gofnod cyhoeddus o'r cyfarfod.

Ceisiodd y CHTh farn y PG ar gynnwys ymgynghori ar y blaenoriaethau Cynllun Heddlu a Throseddu newydd yn yr arolwg staff sydd ar fin cael ei gyhoeddi. Cytunodd y PG i drafod y posibilrwydd â'r tîm arolygon staff.

**Cam gweithredu: Y PG i drafod y posibilrwydd o gynnwys ymgynghoriad ar y Cynllun Heddlu a Throseddu yn yr arolwg staff sydd ar fin cael ei gyhoeddi**

Dygodd y PSA sylw'r aelodau at yr hawliau trosglwyddo arian cyfalaf sydd angen cymeradwyaeth CHTh. Roedd y rhain wedi'u cymeradwyo gan y Grŵp Prif Swyddogion, ac yn unol â'r Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol, roedd angen awdurdod y CHTh hefyd. Bydd y penawdau amnewid setiau airwave, dyraniad ESN a data symudol yn cael eu huno o dan un pennawd cyllideb ESMCP gwerth £1.6 miliwn. Hefyd, bydd cyllid yn cael ei ail-leoli er mwyn bodloni anghenion newidiol yr heddlu: Olrhain Fy Nhrosedd (-£100,000); archebu post (-£10,000); porthol swyddogion ac EWS (-£25,000); EDRM (-£55,000); rhaglen rhesymoliad rhaglenni (-£50,000); system Adnabod Rhifau Ceir yn Awtomatig (+£40,000) a seiberdroseddu (+£200,000). Sicrhaodd y PG bod y gostyngiad i Olrhain Fy Nhrosedd yn ymwneud â datrysiad dim cost yn cael ei geisio. Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â'r cynnydd o ran buddsoddiad mewn seiberdroseddu. Dywedodd y PG y bu hyn yn faes o fuddsoddi sylweddol, drwy sefydlu'r Uned Cyfathrebu Digidol a Seiberdroseddu ar gyfer mynd i'r afael â'r nifer cynyddol o seiberdroseddau. Awgrymodd y PG y dylai'r CHTh ymweld â'r Uned Cyfathrebu Digidol a Seiberdroseddu i gael gwybodaeth am sut y defnyddiwyd y buddsoddiad. Cytunwyd bod angen mwy o gyhoeddusrwydd mewn perthynas ag effaith yr Uned Cyfathrebu Digidol a Seiberdroseddu er mwyn rhoi tawelwch meddwl i'r cyhoedd.

**Penderfyniad: Cymeradwyodd y CHTh yr hawliau trosglwyddo arian i greu pennawd cyllideb ESMCP sengl gwerth £1.6 miliwn**

**Penderfyniad: Cymeradwyodd y CHTh yr hawliau trosglwyddo arian cyllideb cyfalaf i gynyddu cyllidebau seiberdroseddu o £200,000 a'r system adnabod rhifau ceir yn awtomatig o £40,000.**

**Cam gweithredu: CHTh i ymweld â'r Uned Cyfathrebu Digidol a Seiberdroseddu i gael gwybodaeth am sut y defnyddiwyd buddsoddi ychwanegol**

Nododd y PSA bod angen y cynigion ar gyfer y Gronfa Trawsnewid yn amserol. Doedd dim awgrymiadau wedi'u derbyn hyd yn hyn.

Holodd y PSA pa un ai a oedd y PG yn gwybod bod HDP wedi derbyn cais i fod yn gysylltiedig â Chronfa Arloesedd Swydd Bedford mewn perthynas â bwlio, aflonyddu a stelcio seiber. Mae'n debyg bod y DGHTh blaenorol wedi cefnogi'r cais ac awgrymwyd y byddai adnoddau HDP ar gael. Roedd y PG hefyd yn anymwybodol o hyn, ond cytunodd i ystyried y mater cyn ymateb i Swydd Bedford.

**Cam gweithredu: PSA i roi trosolwg i'r PG o gais gan Heddlu Swydd Bedford mewn perthynas â chefnogaeth ar gyfer y prosiect cronfa arloesedd**

**Cam gweithredu: PG i hysbysu'r CHTh pa un ai a yw'r heddlu'n dymuno cefnogi cais Cronfa Arloesedd Swydd Bedford**

Dygodd y CHTh sylw'r PG i staffio'r Swyddfa Gwasanaeth Cyhoeddus. Bydd yr aelod o staff sydd wedi'i secondio o'r heddlu i'r Swyddfa Gwasanaeth Cyhoeddus yn trosglwyddo i'w rôl newydd yn yr heddlu ddydd Llun 27 Mehefin, gan adael y swydd a ariennir gan yr heddlu'n wag. Gofynnodd y CHTh am i'r swydd hon gael ei llenwi, a chytunwyd i hysbysebu cyfle ar gyfer secondiad mewnol 6 mis. Gofynnodd y PSA am i rywun arall o'r heddlu ddod yn lle'r aelod staff sy'n gadael am y tro er mwyn cynnal cyflenwi gwasanaeth yn ystod y cyfnod recriwtio. Cytunwyd y byddai'r CA yn ystyried opsiynau.

**Cam gweithredu: CA i ystyried darpariaeth dros dro ar gyfer y Swyddfa Gwasanaeth Cyhoeddus er mwyn darparu nifer digonol o staff yn ystod y cyfnod recriwtio**

## Diweddariadau

### *Camerâu Fideo a Wisgir ar y Corff*

Nododd y CHTh yr adroddiad gwerthuso, gan ddwedid ei fod yn ddefnyddiol gweld y sylwadau ansoddol am yr effaith gadarnhaol o'r treial, er iddo ystyried y nifer yn y treial, sef 27, yn gymharol fach. Dywedodd y PG bod ffilm a gafwyd o'r camerâu yn bwerus iawn ar gyfer eu defnyddio yn y llys, ac y byddant yn diogelu swyddogion yn ogystal â newid ymddygiad swyddogion os oes angen. Dywedodd y PG bod y posibilrwydd o gaffael ar y cyd â Gogledd Cymru a De Cymru'n cael ei ystyried ar hyn o bryd.

***Gwasanaethau Meddygol Fforensig***

Gofynnodd y CHTh am ddiweddariad ynghylch cynnydd trafodaethau mewn perthynas â chydweithio posibl â byrddau iechyd i gyflwyno gwasanaethau meddygol fforensig. Sicrhaodd y PG bod y PGC yn symud y mater yn ei flaen nawr ei bod hi wedi dychwelyd ar ôl cwblhau ei chymwysterau Prif Swyddog, ac awgrymodd y dylid darparu diweddariad llawn ymhen tri mis.

**Cam Gweithredu: Adolygu cynnydd trafodaethau ynghylch Gwasanaethau Meddygol Fforensig â byrddau iechyd lleol ym mis Medi**

**Unrhyw Fusnes Arall**

Dywedodd y PG bod yr Ysgrifennydd Parhaol o'r Swyddfa Gartref wedi ymweld â Chaerdydd yr wythnos diwethaf ac wedi cwrdd â Phrif Gwnstabliaid ac asiantaethau Swyddfa Gartref eraill er mwyn trafod cydweithio. Roedd y PG yn credu bod trafodaethau pellach yn debygol o ddilyn.

Cafwyd trafodaeth mewn perthynas ag ymgynghoriad y Weinyddiaeth Gyfiawnder mewn perthynas â'r posibilrwydd o ddatblygu gwasanaethau ar gyfer dioddefwyr, gyda'r CHTh yn mynegi ei farn ei bod hi'n well cydlynu rhai gwasanaethau yn genedlaethol, a bod gwasanaethau eraill yn fwy addas ar gyfer cyflenwi lleol.

| CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU AR GYFER CYFARFOD 22/06/16 | | |
|---|---|---|
| **Rhif Cam Gweithredu** | **Crynodeb o'r cam gweithredu** | **I'w symud yn ei flaen gan** |
| **PB 2010** | **PG i nodi arweinydd yr heddlu ar gyfer trafodaethau â'r gwasanaeth tân mewn perthynas â chyfleoedd ar gyfer cydweithio.** | **PG** |
| **PB 2011** | **Cynrychiolydd o SCHTh i gwrdd ag arweinydd Prosiect Llywodraethu Corfforaethol yr heddlu yn rheolaidd** | **CHTh** |
| **PB 2012** | **SCHTh i gysylltu â Phrifysgol y Drindod Dewi Sant mewn perthynas ag ymgysylltu o ran wythnos y glas** | **SCHTh** |
| **PB 2013** | **Timoedd Plismona Bro i roi gwybodaeth i'r CHTh mewn perthynas â gweithgarwch cyfredol** | **MMS** |
| **PB 2014** | **PG i gyflwyno ymateb ysgrifenedig i'r CHTh mewn perthynas â sicrwydd bod contractwyr yn talu'r isafswm cyflog** | **PG** |
| **PB 2015** | **Y CC i roi diweddariad ynghylch statws cyfredol y darparwr gwasanaethau teithio** | **CC** |

| | | |
|---|---|---|
| **PB 2016** | **Y PG i drafod y posibilrwydd o gynnwys ymgynghoriad ar y Cynllun Heddlu a Throseddu yn yr arolwg staff sydd ar fin cael ei gyhoeddi** | **PG** |
| **PB 2017** | **CHTh i ymweld â'r Uned Cyfathrebu Digidol a Seiberdroseddu i gael gwybodaeth am sut y defnyddiwyd buddsoddi ychwanegol** | **CHTh** |
| **PB 2018** | **PSA i roi trosolwg i'r PG o gais gan Heddlu Swydd Bedford mewn perthynas â chefnogaeth ar gyfer y prosiect cronfa arloesedd** | **PSA** |
| **PB 2019** | **PG i hysbysu'r CHTh pa un ai a yw'r heddlu'n dymuno cefnogi cais Cronfa Arloesedd Swydd Bedford** | **PG** |
| **PB 2020** | **CA i ystyried darpariaeth dros dro ar gyfer y Swyddfa Gwasanaeth Cyhoeddus er mwyn darparu nifer digonol o staff yn ystod y cyfnod recriwtio** | **CA** |
| **PB 2021** | **Adolygu cynnydd trafodaethau ynghylch Gwasanaethau Meddygol Fforensig â byrddau iechyd lleol ym mis Medi** | **MMS** |